# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa J.W. Rees, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78964-179-0



(h) Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8
   - Ansawdd profiad y claf ........ 9
   - Darparu gofal diogel ac effeithiol ........ 15
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 24
4. Beth nesaf? ........ 27
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 29
   - Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 30
   - Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ........ 31
   - Atodiad C – Cynllun gwella ........ 32

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa J.W. Rees, Tintern House, Magwyr, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 11 Medi 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa J.W. Rees yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i ddiogelu'r practis, y cleifion a'r staff.

Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen ar waith i gynnal adolygiadau cymheiriaid er mwyn cefnogi dysgu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth o gydberthnasau da a chryf rhwng y staff a'r cleifion.
- Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel.
- Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl wybodaeth gyfrinachol am gleifion ei storio'n ddiogel
- Dylai'r practis ddarparu cyfleusterau storio ar wahân ar gyfer meddyginiaeth frys y mae'n rhaid ei chadw mewn oergell.
- Dylai'r practis sicrhau bod unigolyn â chymwysterau addas yn cynnal profion PAT ar yr holl offer.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

Nodwyd nifer o achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddiwygiadau i'r trefniadau cadw cofnodion, gwybodaeth am gleifion a pholisïau a gweithdrefnau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r person cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os na fydd yn gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa J.W. Rees yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Magwyr a Chil-y-coed yn Ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd a thair nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth dda o daflenni am hybu iechyd y geg a thaflenni gwybodaeth am driniaethau i'r cleifion.

Nodwyd bod gan y practis bolisi cwynion a bod system ar waith i gofnodi cwynion ond cynghorwyd y dylid sefydlu proses i werthuso'r sylwadau a ddaw i law a rhoi adborth arnynt.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 57 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n gyffredinol bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae:

> *"Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i fod yn rhan o'r practis hwn. Fyddwn i ddim eisiau mynd i unman arall"*
>
> *"Rwy'n hapus iawn â'r gofal a'r driniaeth rwy'n eu cael. Mae'r gwasanaeth eisoes yn ardderchog"*
>
> *"Rwy' bob amser wedi cael y driniaeth orau dros y blynyddoedd lawer rwyf wedi defnyddio'r practis deintyddol hwn. Os bydd unrhyw broblem â'm dannedd, gallant ei datrys ar unwaith"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Deintydd arall o bosibl i ddarparu mwy o apwyntiadau a gall hyn fod o fudd ariannol ac economaidd i'r practis"*

> *"Gan fod y teulu cyfan yn gleifion yn y practis, byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu'r enw ar ben y cerdyn apwyntiad"*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hon yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i ddiogelu iechyd a hylendid y geg.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Roedd ein hadolygiad o sampl o gofnodion meddygol wedi cefnogi hyn.

## Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *"Maen nhw [y staff] yn eich trin chi â pharch a rwy' bob amser yn teimlo bod y cleifion yn bwysig iddyn nhw"*

> *"Mae'r staff i gyd yn hollol wych. Bob amser yn garedig, yn ofalgar ac yn barod i helpu"*

Pe bai angen cael sgwrs breifat gyda chlaf wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ddeintyddfa pe bai ar gael. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisïau priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[1] wedi'u harddangos yn yr ardal aros. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Pan fo'n briodol, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos ar gefn y drws sy'n arwain i'r dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r cleifion weld y posteri hyn am fod y drws ar agor drwy gydol yr arolygiad, felly byddem yn awgrymu y dylai'r practis ystyried arddangos gwybodaeth am brisiau a chostau mewn man amlwg er mwyn sicrhau y gall pob claf gael gafael ar y wybodaeth hon yn hawdd.

Y tu allan i'r practis, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng, ynghyd ag enw a chymwysterau'r deintydd, wedi'u harddangos ar y ffenestr wrth ymyl y drws ffrynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos costau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG mewn man amlwg y gall cleifion ei weld yn glir.

[1] https://standards.gdc-uk.org/

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg yn unig roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Gan fod y gwasanaeth yng Nghymru, dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'[2].

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gofal amserol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n "hawdd iawn" neu'n "eithaf hawdd" cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

[2] Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fel y nodwyd eisoes, dywedodd bron bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

### Hawliau pobl

Roedd y practis yn addas i bobl oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn gan fod holl ardaloedd y cleifion ar y llawr gwaelod. Roedd toiled y cleifion yn addas i bobl oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn hefyd.

Ni welsom fod polisi cyfle cyfartal ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno polisi perthnasol a hysbysu'r staff i gyd amdano.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gyflwyno polisi cyfle cyfartal.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau yn yr ardal aros a oedd wedi cael nifer fach o sylwadau, ond nid oedd y canlyniadau wedi cael eu gwerthuso adeg yr arolygiad. Awgrymwn y dylai'r practis werthuso'r sylwadau hyn a hysbysu'r cleifion am unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r sylwadau hyn.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella[3] y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddechrau gwerthuso unrhyw sylwadau a wneir a rhoi adborth i'r cleifion ar ganlyniadau sylwadau a wneir drwy'r blwch awgrymiadau.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn ogystal â thystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd y practis yn dilyn canllawiau NICE ar adalw cleifion preifat, ond roedd angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r un protocolau ar gyfer cleifion y GIG hefyd.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis ac ymwelwyr â'r practis.

Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Y tu mewn, gwelsom nad oedd y drws i'r ardal staff a'r swyddfa ar y llawr cyntaf wedi'i gloi ac y gallai aelod o'r cyhoedd ei agor yn hawdd. Mae angen unioni hyn cyn gynted â phosibl.

Nodwyd bod nifer o bolisïau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd y safle, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch, a gwelwyd tystiolaeth bod asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cynnal. Rydym wedi awgrymu y dylid nodi'r dyddiad ar bob asesiad risg fel y gellir gweld yn glir pryd y cafodd ei gwblhau. Nodwyd nad oedd polisi rheoli risg ar waith ac argymhellwyd y dylid cyflwyno polisi o'r fath. Nodwyd hefyd mai dim ond rhai polisïau yr oedd y staff wedi'u llofnodi i ddangos eu bod yn cytuno â nhw. Er mwyn dangos bod y staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau perthnasol, awgrymwyd y gallai'r practis ystyried rhoi proses ar waith i gadarnhau bod y staff wedi gwneud hyn, er enghraifft, llofnodi'r dogfennau a nodi'r dyddiad arnynt.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Nodwyd bod ardal storio'r cywasgydd mewn cyflwr gwael a oedd yn golygu nad oedd y cywasgydd yn cael ei ddiogelu rhag yr elfennau a bod risg o ddifrod. Rydym wedi argymell y dylid atgyweirio'r ardal hon yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus.

Cawsom ein hysbysu bod y prif ddeintydd wedi cynnal profion dyfeisiau cludadwy (PAT) ar gyfer y practis. Yn ôl canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mewn llawer o amgylcheddau risg isel, gall profion gael eu cynnal gan berson cymwysedig. Felly, ar yr amod bod gan aelod synhwyrol o'r staff ddigon o wybodaeth a'i fod wedi cael digon o hyfforddiant, gall yr aelod hwnnw gynnal y profion ar ffurf archwiliadau gweledol. Ond wrth gynnal archwiliadau a phrofion ar y cyd ac mewn achosion lle mae'r cleifion a'r staff yn dod i gysylltiad â'r dyfeisiau trydanol, rhaid iddynt gael eu profi gan berson cymwysedig. Byddem yn argymell bod y practis yn defnyddio person â chymwysterau addas i gynnal profion PAT manwl er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn y practis yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr arwyddion uwchben rhai o'r dyfeisiau diffodd tân hyn yn cyfateb i'r dyfeisiau eu hunain ac nid oedd y dyfeisiau i fyny'r grisiau na'r ddyfais diffodd â dŵr yn y dderbynfa wedi'u gosod yn sownd i'r wal neu ar stand diogel. Roedd casin y ddyfais diffodd tân yn yr ystafell staff wedi'i ddifrodi hefyd. Argymhellwn fod pob dyfais diffodd tân yn cael ei gosod yn briodol wrth ymyl arwyddion cyfatebol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd allanfeydd tân yr adeilad. Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant tân mewnol gan aelod o'r staff. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu eu bod yn cael hyfforddiant tân ffurfiol yn unol â'r rheoliadau. Byddem yn cynghori'r practis hefyd i lunio amserlen ymarferion tân er mwyn darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002[4], mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thaflenni data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a ffeil adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis bolisi dadebru a pholisi parhad busnes ar waith.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi clo ar yr ardal staff ar y llawr cyntaf.

Rhaid i'r practis ddatblygu polisi rheoli risg.

Rhaid i'r practis drefnu bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal ar yr holl offer trydanol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y dyfeisiau diffodd tân i gyd yn bresennol wrth ymyl yr arwyddion priodol, a'u bod wedi'u gosod yn briodol.

Rhaid i'r practis ddatblygu amserlen ymarferion tân er mwyn dogfennu'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddeintyddfa, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[5]. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

---

[4] http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelu offer miniog ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Roedd cadeiriau ffabrig yn y deintyddfeydd ac rydym yn cynghori, at ddibenion rheoli heintiau, eu bod yn cael gwared arnynt ac yn cael rhai y gellir eu golchi yn eu lle, neu fod y practis o leiaf yn datblygu protocol diheintio ar gyfer eu glanhau. Byddem yn cynghori hefyd fod y ddeintyddfa yn rhoi protocol glanhau ar waith ar gyfer glanhau'r teganau yn yr ardal aros i blant.

Gwnaethom sylwi nad oedd cyfleusterau gwaredu deunyddiau misglwyf yn nhoiled y staff. Rhaid i'r practis drefnu bod bin o'r fath yn cael ei osod.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl ddodrefn yn y deintyddfeydd, megis cadeiriau, yn cael eu glanhau yn unol ag amserlenni glanhau fel y nodir yn WHTM 10-05.

Rhaid i'r practis drefnu bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei roi yn nhoiled y staff.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob un o'r nyrsys deintyddol heblaw am un wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i roi triniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Cawsom sicrwydd digonol ar y diwrnod bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu.

Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y staff y cyffuriau brys a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[6]. Nodwyd bod cyffuriau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu cadw yn yr oergell yng nghegin y staff gyda bwyd a diod. Argymhellwn fod y practis yn cael oergell arall bwrpasol i storio cyffuriau brys. Byddem yn argymell hefyd fod cofnodlyfr yn cael ei gadw i sicrhau bod pob cyffur brys yn cael ei wirio'n rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cadw. Gwelsom hefyd fod y nodwyddau ar gyfer yr offer argyfwng wedi mynd heibio i'w dyddiadau defnyddio ac argymhellwyd bod y practis yn cael rhai newydd cyn gynted â phosibl.

Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac roedd dyddiadau defnyddio'r eitemau yn addas.

Wrth adolygu'r deintyddfeydd, nodwyd gennym fod rhai o'r pecynnau lleithio hylan wedi mynd heibio i'w dyddiad defnyddio. Pan dynnwyd sylw'r staff at hyn, cafodd y pecynnau eu gwaredu ar unwaith. Argymhellwn fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod pob eitem o fewn ei dyddiad defnyddio. Hefyd, argymhellwn fod cofnodlyfr yn cael ei gadw at y diben hwn a'i fod yn cael ei adolygu gan reolwr y practis.

Roedd gan y practis bolisi meddyginiaeth ar waith. Nodwyd nad oedd ganddo weithdrefn ffurfiol i waredu cyffuriau'n briodol, ac argymhellwyd y dylai gyflwyno polisi priodol.

Dwedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA[7].

---

[6] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

[7] https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis drefnu ei fod yn cael nodwyddau newydd ar gyfer yr offer argyfwng.

Rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant CPR priodol ar gyfer y nyrs ddeintyddol.

Rhaid i'r practis gyflwyno polisi i waredu cyffuriau'n briodol.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Adeg yr arolygiad, roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant lefel 1 ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Nodwyd gennym fod cyngor diogelu ychwanegol wedi'i gynnwys fel atodiad i'r polisi diogelu, a oedd hefyd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol. Er bod arweinydd diogelu dynodedig ar gael, byddem yn argymell ei fod yn cael ei enwi yn y polisi perthnasol Byddem yn awgrymu y dylai arweinydd diogelu'r practis ystyried cael hyfforddiant diogelu ar lefel uwch.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis enwi'r arweinydd diogelu yn y polisïau perthnasol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn

cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Roedd y rheolau lleol[8] wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd.

Gwelwyd tystiolaeth bod asesiadau risg amgylcheddol llawn wedi cael eu cynnal, yn unol â'r rheoliadau. Roedd gan y practis amserlen lanhau i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob ardal yn lân ac yn daclus bob amser.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[9] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2000[10], roedd y prif ddeintydd a phob un o'r nyrsys deintyddol heblaw am un ohonynt wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Gwelsom dystiolaeth yn ystod ein harolygiad y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod mis Medi 2018.

Nodwyd bod blwch storio'r cywasgydd wedi'i ddifrodi ac am ei fod wedi'i leoli y tu allan yng nghefn y practis, roedd y cywasgydd yn agored i dywydd eithafol. Byddem yn argymell bod y blwch hwn yn cael ei atgyweirio cyn gynted â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant IR(ME)R priodol.

Dylai'r practis atgyweirio blwch storio'r cywasgydd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[8] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

[9] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[10] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal nifer o archwiliadau clinigol. Nodwyd mai archwiliadau achlysurol oedd y rhain a bod angen cynnal archwiliadau o drefniadau cadw cofnodion, er enghraifft.

Nodwyd gennym fod gweithdrefn claf newydd a pholisi asesu, diagnosio a thrin cleifion ar waith yn y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn cyfarfod â deintydd lleol arall yn rheolaidd i drafod materion clinigol a materion yn ymwneud â'r practis, ond cynghorwyd y dylid ffurfioli'r broses ar ffurf adolygiad cymheiriaid. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi trefniant tebyg ar waith ar gyfer nyrsys deintyddol y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' Deoniaeth Cymru[11]. Mae'r 'Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut y mae'n gweithio

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau priodol, fel archwiliadau o drefniadau cadw cofnodion, yn cael eu cynnal.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio y tu ôl i'r dderbynfa, ond nid oedd clo ar bob un o'r rhain. Byddem yn argymell bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau y gellir eu cloi er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y drws ffrynt yn cael ei gloi yn ystod amser cinio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chadw yn y practis yn ddiogel. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi rheoli cofnodion.

---

[11] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau y gellir eu cloi.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom fod rhai pethau ar goll mewn rhai achosion, oherwydd ni welwyd y canlynol bob tro yng nghofnodion y cleifion:

- Cyngor ar hylendid y geg a deiet
- Adalw cleifion yn unol â chanllawiau NICE
- Nid oedd cydsyniad y cleifion wedi'i gofnodi a byddem yn argymell yn gryf fod hyn yn cael ei gofnodi cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae J.W. Rees yn eiddo i'r prif ddeintydd, sef yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig. Caiff ei gynorthwyo gan dair nyrs ddeintyddol. Roedd y brif nyrs ddeintyddol yn gwneud llawer i helpu'r prif ddeintydd i redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli da.

Roedd gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ac roedd y staff yn cael cymorth i sicrhau bod eu gofynion DPP yn gyfredol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae J.W. Rees yn eiddo i'r prif ddeintydd, Jeff Rees, ac yn cael ei reoli ganddo. Ef yw'r unig ddeintydd yn y practis a chaiff ei gynorthwyo gan dair nyrs ddeintyddol. Ef hefyd yw'r rheolwr cofrestredig[12] a'r unigolyn cyfrifol[13]. Roedd y brif nyrs ddeintyddol yn ei helpu i redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

---

[12] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

[13] Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nodwyd nad oedd y Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis. Mae angen cynnwys y wybodaeth hon er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnwys manylion am y weithdrefn gwyno yn y daflen wybodaeth i gleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn eu ffeiliau unigol.

Heblaw am yr hyfforddiant y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a phwyntiau gweithredu gan reolwr y practis ar lafar. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gofyn i'r staff lofnodi'r cofnodion er mwyn dangos eu bod wedi'u derbyn.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob un o'r nyrsys deintyddol ac eithrio un. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o statws imiwnedd pob aelod o'r staff clinigol ac eithrio un. Cadarnhaodd y practis nad oedd gan yr aelod o staff dan sylw imiwnedd a'i fod wedi methu'r pigiad atgyfnerthu y dylid ei gael bob pum mlynedd. Rydym wedi argymell bod y practis yn unioni hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

Rhaid i un nyrs gael y pigiad atgyfnerthu pum mlynedd yn erbyn Hepatitis B.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Deintyddfa J W Rees

## Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Teitl swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Deintyddfa J W Rees

## Dyddiad arolygu: 11 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; | | | |
| | 4.1 Gofal Gydag Urddas; | | | |
| Rhaid i'r practis arddangos costau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG mewn man amlwg y gall cleifion ei weld yn glir. | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 6(3) | Rydym wedi ychwanegu at y rhestrau prisiau a oedd ar gefn drws yr ystafell aros. Mae rhestrau prisiau i'w gweld yn yr ystafell aros ei hun erbyn hyn. | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| | 3.2 Cyfathrebu'n | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | effeithiol; | | | |
| | 5.1 Mynediad amserol; | | | |
| | 6.1 Cynllunio Gofal i hybu annibyniaeth; | | | |
| Rhaid i'r practis gyflwyno polisi cyfle cyfartal. | 6.2 Hawliau pobl; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8(1) | Mae polisi cyfle cyfartal ar waith | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis ddechrau gwerthuso unrhyw sylwadau a wneir a rhoi adborth i'r cleifion ar ganlyniadau sylwadau a wneir drwy'r blwch awgrymiadau. | 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16 | Rydym bellach yn arddangos ein hymateb i'r nodiadau a'r ceisiadau yn y blwch awgrymiadau, yn yr ystafell aros | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis roi clo ar yr ardal staff ar y llawr cyntaf.<br><br>Rhaid i'r practis ddatblygu polisi rheoli risg. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau | Mae clo bysellbad wedi cael ei brynu a bydd yn cael ei osod | Jeff Rees | 28/11/2018<br><br>Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis drefnu bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal ar yr holl offer trydanol.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod y dyfeisiau diffodd tân i gyd yn bresennol wrth ymyl yr arwyddion priodol, a'u bod wedi'u gosod yn briodol.<br><br>Rhaid i'r practis ddatblygu amserlen ymarferion tân er mwyn dogfennu'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. | Deintyddiaeth Breifat 20(2)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8(1)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 13(2)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 22(4)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 22(4) | Mae polisi rheoli risg ar waith.<br><br>Ardystiadau a phrofion PAT llawn gan drydanwr ar 06/10/18.<br><br>Pob dyfais diffodd tân wrth ymyl arwyddion a chânt eu gosod yn briodol<br><br>Cafodd amserlen ymarferion tân ei datblygu pan wnaethom ddiweddaru ein ffeil rheoli diogelwch tân. | | Cwblhawyd<br><br>28/11/2018<br>Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl ddodrefn yn y deintyddfeydd, megis cadeiriau, yn cael eu glanhau yn unol ag amserlenni glanhau fel y nodir yn WHTM 10-05.<br><br>Rhaid i'r practis drefnu bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei roi yn nhoiled y staff. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM 01-05 | Mae amserlen lanhau ar waith ac mae cadeiriau y gellir eu golchi wedi cael eu prynu I rieni ac ati eistedd arnynt yn y ddeintyddfa<br><br>Caiff bin gwastraff deunyddiau misglwyf ei osod gan Initial. Mae contract wedi cael ei drefnu | Jeff Rees | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis drefnu ei fod yn cael nodwyddau newydd ar gyfer yr offer argyfwng.<br><br>Rhaid i'r practis drefnu hyfforddiant CPR priodol ar gyfer y nyrs ddeintyddol.<br><br>Rhaid i'r practis gyflwyno polisi i waredu cyffuriau'n briodol. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 14(4)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 31(3)<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 14(4) | Mae nodwyddau newydd yn y pecyn cyffuriau brys<br><br>Cafodd pob aelod o'r staff hyfforddiant CPR ar 06/11/18<br><br>Mae polisi ar waith gan y practis | Jeff Rees | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis enwi'r arweinydd diogelu yn y polisïau perthnasol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 14(1) | Mae'r arweinydd diogelu wedi'i enwi ym mhob polisi erbyn hyn | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant IR(ME)R priodol.<br><br>Dylai'r practis atgyweirio blwch storio'r cywasgydd. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol;<br><br>Rheoliadau | Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant IR(ME)R priodol a thystysgrif<br><br>Rydym wedi cael y deunyddiau i | Jeff Rees | Cwblhawyd<br><br>07/12/2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddiaeth Breifat 17(3) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8 a 13(2) | atgyweirio blwch storio'r cywasgydd a chânt eu gosod ymhen pythefnos | | |
| | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau priodol, fel archwiliadau o drefniadau cadw cofnodion, yn cael eu cynnal. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8(1) | Er mwyn sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal, mae'r practis wneud gwneud cais i Heather Stewart mewn perthynas â'r archwiliadau Rhagnodi Gwrthficrobaidd a Rhoi'r Gorau i Smygu. Ac i Richard Williams ar gyfer adnodd hunanwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd | Jeff Rees | Parhaus |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau y gellir eu cloi. | 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20(2) | Er mwyn sicrhau bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau y gellir eu cloi, byddwn yn gwaredu'r hen gypyrddau ac yn prynu rhai newydd. | Jeff Rees | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20(1) | Yn unol â'r cyngor a gafwyd yn ystod arolygiad AGIC, mae cydsyniad bellach wedi cael ei ychwanegu at y cwymplenni ar y cyfrifiadur. Hefyd, byddaf yn dilyn cwrs ar gadw cofnodion ar 18 Rhagfyr | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis gynnwys manylion am y weithdrefn gwyno yn y daflen wybodaeth i gleifion. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Atodlen 2 | Trafodwyd taflen y practis ag AGIC a chafodd ei diwygio | Jeff Rees | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.<br>Rhaid i un nyrs gael y pigiad atgyfnerthu pum | 7.1 Gweithlu; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Atodlen 3 Rhan 3 | Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwiriadau. Anfonwyd llythyr parthed pigiad atgyfnerthu pum mlynedd y nyrs. | Jeff Rees | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| mlynedd yn erbyn Hepatitis B. | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Jeff Rees**

**Teitl swydd:** **Deintydd** **Dyddiad:** **26/11/2018**